Bwrsari Datblygu Syniad

Cwestiynau Cyffredin

Pa gefnogaeth fydd ar gael gan Theatr Genedlaethol Cymru?

Bydd tîm Theatr Gen yn cefnogi pob unigolyn sy'n derbyn bwrsari. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth technegol, cynhyrchu, marchnata a datblygu creadigol gan dîm Theatr Gen (hyd at gyfanswm o 5 awr). Bydd y cyllid o £1,000 yn cael ei glustnodi ar gyfer gwahanol elfennau o'r gwaith yn dilyn trafodaeth rhwng yr ymgeisydd llwyddiannus a Theatr Gen. Does dim disgwyl i chi gyflogi unrhyw un arall i weithio gyda chi ar y prosiect – ond os ydych chi'n dymuno gwneud, rhaid i unrhyw ffioedd neu gostau ychwanegol gael eu cynnwys yn y ffi o £1,000.

Sut fydd amserlen y broses ymgeisio yn gweithio?

7 Hydref 2020	**Cyfnod ymgeisio yn agor**
19 Hydref 2020	**Dyddiad cau i fynegi diddordeb** Gallwch wneud hyn drwy anfon braslun o 150 o eiriau yn disgrifio'ch prosiect (yn y Gymraeg neu yn Saesneg), ynghyd â theitl ar ei gyfer at creu@theatr.com. NEU gallwch gyflwyno cais fideo hyd at 2 funud o hyd at creu@theatr.com neu drwy WhatsApp at 07903 842617. Bydd angen cyflwyno'r ffurflen Monitro Cydraddoldeb hefyd.
Diwedd mis Hydref	**Dewis rhestr fer** Bydd y rheiny sy'n cyrraedd y rhestr fer yn clywed gennym erbyn diwedd mis Hydref gyda gwahoddiad i gyflwyno cais llawn. Byddwn yn darparu ffurflen gais, yn ogystal â manylion ynghylch cyflwyno cais fideo. Byddwn hefyd yn cynnig ffi o £50 yr un i'r rhai hynny ar y rhestr fer lunio'r cais ehangach hwn.
16 Tachwedd 2020	**Dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau llawn**
Diwedd mis Tachwedd	**Cynnig bwrsari i'r 5 llwyddiannus** Bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus gyflawni'r gwaith ymchwil a datblybu rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021.

Ydw i'n gallu cynnig mwy nag un syniad ar gyfer y bwrsari Datblygu Syniad?

Gallwch. Mae croeso i ymgeiswyr gynnig mwy nag un syniad. Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu braslun (ar ffurf ysgrifenedig neu fideo) ar wahân ar gyfer pob syniad. Gan ein bod yn awyddus i gefnogi amrywiaeth o artistiaid, byddwn yn darparu'r bwrsarïau i 5 artist gwahanol a ni fyddwn yn gofyn i'r rheiny sy'n cyrraedd y rhestr fer ddatblygu mwy nag un syniad ar gyfer y cais llawn.

Oes unrhyw gyfyngiadau ar y gwaith ymchwil a datblygu?

Bydd angen i unrhyw waith datblygu syniad gydymffurfio â chyngor a chanllawiau Covid-19 cyfredol Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn ag ymbellhau cymdeithasol neu unrhyw gyfnodau clo newydd yn genedlaethol neu'n lleol. Bydd hefyd angen cadw at gyfyngiadau'r gyllideb, sef £1,000 fesul bwrsari.

Dydw i ddim wedi gweithio yn y celfyddydau o'r blaen. Ydw i dal yn cael gwneud cais?

Ry'n ni'n croesawu ceisiadau gan unrhyw un sydd â diddordeb neu uchelgais o weithio yn y celfyddydau – yn ogystal â'r rheiny sydd â phrofiad yn y sector. Bydd y prosiectau'n cael eu dethol yn seiliedig ar eu cryfderau unigol fel ceisiadau. Ein bwriad yw buddsoddi mewn artistiaid sydd wedi'u tangynrychioli yn y celfyddydau a gweithio gyda nhw i ddatblygu eu syniadau.

Ydw i'n gymwys i ymgeisio?

Gallwch ymgeisio am fwrsari Datblygu Syniad os ydych chi'n uniaethu gydag un neu ragor o'r grwpiau canlynol: pobl anabl a/neu bobl Ddu, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig. Byddwn yn croesawu cais gan y rheiny sydd â phrofiad – neu uchelgais – o greu gwaith theatr ac sydd â'r awydd i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dydw i ddim yn hyderus yn ysgrifennu/siarad Cymraeg. Ydw i'n cael gwneud cais?

Wrth gwrs. Mae croeso i chi anfon eich mynegiant o ddiddordeb a cheisiadau llawn yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd disgwyl i'r gwaith a ddatblygir fod yn bennaf yn y Gymraeg (sef bod o leiaf 50% o unrhyw ddeialog o fewn y gwaith a gyflwynir yn yr iaith Gymraeg) – ond gallwn eich cefnogi i wneud hynny. Mae datblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y celfyddydau yn hynod bwysig i ni fel cwmni.

Mae gen i syniad gwych ond dydw i ddim wedi datblygu syniad fy hun o'r blaen.

Dim problem. Byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu'r syniad, gan ddefnyddio rhwydweithiau ac adnoddau Theatr Gen.

Gwybodaeth Ychwanegol

Sicrhewch eich bod yn llenwi'r ffurflen Monitro Cydraddoldeb.

Cofiwch roi eich enw yn nheitl yr e-bost mynegi diddordeb, neu nodwch ar y fideo.